Pecyn Gwybodaeth Buddsoddi

Prosbectws Buddsoddi mewn Ynni Glân ar gyfer Cymru

Sut all buddsoddwyr helpu i lunio seilwaith ynni glân a phennod nesaf Cymru.



Argraffiad Cymraeg

Rhagair

Ar draws ein dau sefydliad, rydym yn dod â thros ugain mlynedd o brofiad yn helpu cwmnïau i gyflawni newid cynaliadwy. Mae'r profiad hwnnw'n dangos bod cynnydd gwirioneddol yn digwydd dim ond pan mae cenhedloedd, sefydliadau a phobl yn cydbwyso uchelgais gydag eglurder, cysondeb ac ymrwymiad hirdymor. **Dyna'n union mae Cymru yn ei wneud.**

Mae hanes Cymru yn dangos cenedl sy'n fodlon ail-lunio ei dyfodol, o'i threftadaeth ddiwydiannol i fabwysiadau yn gynnar dulliau llywodraethu sy'n cael eu harwain gan lesiant. Mae'r genedl nawr yn paratoi ar gyfer cyfnod tyngedfennol arall, gan ddod â ffyniant, pwrpas, gwytnwch a chyfrifoldeb amgylcheddol i un cyfeiriad, yn seiliedig ar ddeddf flaengar Cymru, Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r prosbectws hwn yn amlinellu llwybr uchelgeisiol ond un y mae modd ei gyflawni tuag at y cyfeiriad cyffredin hwnnw. Mae'n cynnig cyfle prin i fuddsoddwyr weithio gyda chenedl ddatganoledig o fewn y Deyrnas Unedig, un y mae ei deddfwriaeth, sylfaen sgiliau a galluoedd diwydiannol i gyd yn cefnogi **economi lanach, wyrddach a mwy cynhyrchiol**. Mae Cymru yn darparu cyfleoedd i fuddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel (e.e. hydrogen, ynni llanw), deallusrwydd artiffisial, uwch weithgynhyrchu a sectorau eraill sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio llwyfan cadarn ar gyfer creu gwerth hirdymor.

Mae Cymru yn amlwg yn hyn o beth oherwydd ei bod yn tynnu ar dreftadaeth gweithgynhyrchu a pheirianneg ddofn, gan dyfu galluoedd digidol ac arbenigedd cryf mewn gwyddor amgylcheddol, a hynny i gyd wedi'i gefnogi gan brifysgolion a llywodraeth sy'n cymryd datblygu sgiliau o ddifrif.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau bod pob buddsoddiad yn cyfrannu at wytnwch cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae ei nodau ar gyfer Cymru Ffyniannus, Cymru Gydnerth, a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang yn rhoi fframwaith cadarn i fuddsoddwyr wedi'i llunio gan bwrpas yn ogystal ag ymarferoldeb.

Mae'r Prosbectws hwn yn gwahodd buddsoddwyr i helpu i lunio pennod nesaf Cymru drwy baru enillion ariannol gyda buddion cymdeithasol ac amgylcheddol mesuradwy. Rydym yn credu bod Cymru mewn safle da i arwain y pontio i sero net, ac rydym yn eich gwahodd chi i ymuno â ni wrth gyflawni ffyniant sy'n gyfrifol yn economaidd ar gyfer ei phobl a'i busnesau

Georgina Sell
Acre Resources

Ben Burggraaf
Sero Net Diwydiant

This document is also available in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

acre.com/wales-prospectus

Hoffai Acre a Sero Net Diwydiant Cymru ddiolch i'r cyfranwyr sydd wedi helpu i lunio ein Prosbectws Buddsoddi mewn Ynni Glân:

Contents

05 Crynodeb Gweithredol: Pam Cymru?

06 Cyfleoedd Buddsoddi Cyfalaf Cyfredol yng Nghymru

12 Gweledigaeth Strategol

14 Pam Buddsoddi yng Nghymru?

17 Cefnogaeth ar gyfer Buddsoddwyr



Crynodeb Gweithredol

Beth sy'n dod i'r meddwl pan rydych chi'n meddwl am Gymru?

Cenedl flaengar sydd wedi'i hadeiladu ar sylfaen o ragoriaeth ddiwydiannol? Cenedl sy'n cael ei gyrru gan arloesedd? Cenedl gyda ffyniant y dyfodol wedi'i adeiladu yn rhan o'i DNA deddfwriaethol? Os na, yna dylech gymryd golwg fanylach. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymru wedi denu £4.6bn o fuddsoddiad mewnol yn fyd-eang ac wedi diogelu 65 prosiect Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor - gyda thwf sylweddol mewn AI, ynni glân, a lled-ddargludyddion[1]

Heddiw, mae Cymru yn cynnig cyfuniad unigryw i fuddsoddwyr o:

- **Adnoddau naturiol,** bron yn doreithiog **ar gyfer ynni glân** (gwynt a llanw, yn ogystal â seilwaith hydrogen sy'n aeddfedu)
- **Ecosystem gefnogol sydd wedi'i halinio** o gyrff datganoledig a chyhoeddus ochr yn ochr â chlwstwr diwydiannol ffyniannus yn ne Cymru
- **Treftadaeth ddiwydiannol hirsefydlog,** a diwydiannau trwm, sydd wedi'u hintegreiddio o fewn cymunedau lleol ac sy'n darparu cyfleoedd anferth drwy brosiectau datgarboneiddio sydd hefyd yn fuddiol o ran ôl-troed a sylfaen gweithrediadau sy'n bodoli eisoes yma yng Nghymru
- **Seilwaith o'r radd flaenaf, gweithlu medrus, a mentrau treth wedi'u targedu** drwy ei Phorthladdoedd Rhydd

Yn sail i weledigaeth economaidd Cymru mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - y ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd sy'n gwneud datblygiad cynaliadwy yn ofyn cyfreithiol ar gyfer pob corff cyhoeddus. Mae saith Nod Llesiant y Ddeddf yn ffurfio fframwaith ar gyfer polisi, seilwaith a buddsoddiad sydd â'r nod o sicrhau sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer partneriaid sy'n rhan o ddatblygiad Cymru.

Mae'r Prosbectws hwn yn anelu at ddarparu:

- **Ymwybyddiaeth o** dirwedd seilwaith ynni, gan gynnwys rhestr (sydd heb fod yn gynhwysfawr) o brosiectau buddsoddiadwy
- **Y rhwydwaith cymorth presennol** sy'n gallu datgloi a hwyluso cyfleoedd a llwybrau buddsoddi
- **Hyder hirdymor** ynghylch sefydlogrwydd a chysondeb polisi
- **Tystiolaeth o fuddsoddiad sy'n cael ei arwain gan bwrpas,** alinio enillion ariannol gyda chanlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol mesuradwy

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i Gymru.

Cyfleoedd Buddsoddi Cyfalaf Cyfredol yng Nghymru

Poblogaeth Cymru: 3.18 miliwn
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) (disgwyliedig): £9 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf o brosiectau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio 2
Sectorau allweddol: CCUS, hydrogen, trydaneiddio, gwynt ar y tir/alltraeth, solar, llanw
Amserlen ar gyfer cwblhau: O ganol y 2030au ymlaen



Ein bwriad yw diweddaru'r rhestr yn barhaus wrth i brosiectau ddatblygu a symud yn eu blaen.

Ar Waith / Chwilio am Fuddsoddiad

Mae'r prosiectau hyn yn agored i gymorth drwy fuddsoddiad neu greu cyfle ar gyfer buddsoddiad cysylltiedig:

A

Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr - Gogledd Cymru

Gosodiad gwynt alltraeth wedi'i gynllunio a'i leoli oddeutu 10.5km oddi ar arfordir gogledd Cymru ym Môr Iwerddon, gydag ardal sydd yn gyfanswm o 78km2. Mae'r prosiect nawr wedi derbyn cymeradwyaeth lawn ac wedi derbyn ei Orchymyn Cydsyniad Datblygu a'r trwyddedau morol angenrheidiol ym mis Medi a mis Tachwedd 2023 fel ei gilydd.
Ffocws: Gwynt alltraeth
Gwerth buddsoddiad dangosol: Oddeutu £2bn, yn ddibynnol ar y llwybr i'r farchnad

B

Bute Energy Onshore Wind Portfolio

Ar hyn o bryd mae yna 14 o brosiectau gwynt ar y tir ar draws Cymru yn cynnwys Parc Ynni Twyn Hywel (amcangyfrif o 92.4MW) a Pharc Ynni Moel Chwa (amcangyfrif o 79.2MW), gyda chysylltiadau i'r grid yn cael eu darparu gan Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) Green Gen Cymru.
Cysylltedd: IDNO, Green Gen Cymru, i ddarparu seilwaith grid pwrpasol.
Gwerth buddsoddiad dangosol: Dros £600m eisoes wedi ymrwymo ar gyfer y potensial am £biliynau o fuddsoddiad hyd at 2030.

C

Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) - Castell-nedd Port Talbot

Cyfleuster arloesi a phrofi rheilffordd integredig cyntaf y DU.
Ffocws: seilwaith trafnidiaeth
Gwerth buddsoddiad dangosol: £150–£200m. Amcangyfrif o £15 am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi.

D

Hwb Hydrogen Caergybi

Partneriaeth rhwng Menter Môn, EDF Hynamics a chynllun ynni llanw Morlais. Cysylltedd tir a'r grid eisoes wedi'i ddiogelu.
Ffocws: hydrogen, ynni'r llanw.
Gwerth buddsoddiad dangosol: £14m buddsoddiad cyfalaf ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (Uchelgais Gogledd Cymru), DESNZ, Llywodraeth Cymru a EDF Hynamics. Chwilio am £2.5bn mewn ecwiti.

E(1)

HyLine Cymru

Cynnig yw adeiladu pibell hydrogen 130km newydd ar draws De Cymru o Benfro i Bort Talbot. Bydd y biblinell hon yn helpu i ddatgloi o leiaf 4.5GW o wynt alltraeth yn y Môr Celtaidd trwy ddarparu llwybr i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr ynni glân, wrth gludo ffynhonnell ynni carbon isel a gynhyrchir gartref ar gyfer cwsmeriaid sy'n anodd eu datgarboneiddio.
Ffocws: hydrogen, CCS.
Gwerth buddsoddiad dangosol: £2bn+ GVA

E(2)

HyLine Gogledd

Cynnig yw adeiladu piblinell newydd 32km trwy Ogledd Cymru o Lannau Dyfrdwy i Wrecsam. Bydd y biblinell hon yn caniatáu i ddiwydiannau lleol sydd ar lwybr i sero net gael mynediad at hydrogen, ar raddfa fawr, i ddatgarboneiddio eu prosesau.
Ffocws: hydrogen, CCS.
Gwerth buddsoddiad dangosol: £2bn+ GVA

[2] Wales Clean Growth Map reveals £9 billion clean energy and industrial decarbonisation opportunity for Welsh regions – NZIW
[3] Severn-Estuary-Commission-Report-1.pdf
[4] Mae Gwerth Datblygiad Gros (GDV) yn fetrig ariannol a ddefnyddir i amcangyfrif cyfanswm gwerth prosiect datblygu eiddo ar ôl ei gwblhau'n llawn ac yn barod ar gyfer gwerthu, rhoi ar brydles neu ddeiliadaeth.

F

Prosiect CO2 Aberdaugleddau

Partneriaeth rhwng RWE a Dragon LNG, wedi'i gefnogi gan Shell ac Acorn, er mwyn datblygu trafnidiaeth sy'n gallu dal carbon ac sydd â chapasiti storio ac sy'n alluogwr cludo CO2 a fyddai'n gweithredu fel lliniarydd risg swm ar gyfer holl storfeydd y DU. Rhan o Ganolfan Sero Net Sir Benfro, sydd hefyd yn canolbwyntio ar brosiectau ymlosgiad hydrogen, storio batri a hydrogen gwyrdd.

Ffocws: CCS

Gwerth buddsoddiad dangosol: oddeutu £2bn, yn ddibynnol ar gytundeb ynni y mae modd ei ddosbarthu

G

Prosiect Ynni Llif Llanw Morlais

Ar hyn o bryd dyma'r prosiect mwyaf o'i fath yn y byd sydd wedi'i gymeradwyo, 240MW ar ôl cael cydsyniad datblygwyr ynni llanw.

Datblygiad i fod i ddechrau yn 2026-27.

Ffocws: ynni llanw, Ymchwil a Datblygiad

Gwerth buddsoddiad dangosol: I'w gadarnhau, y datblygwyr i gyd yn chwilio am gyllid ar hyn o bryd.

H

Canolfan Sero Net Penfro (PNZC) | Gorsaf Bŵer Penfro

Gorsaf tyrbin nwy cylchred cyfunol (CCGT) gyda phrosiect dal carbon, cyfleuster hydrogen gwyrdd a storio batri wedi'i gynllunio.

Ffocws: Dal a storio Carbon, hydrogen gwyrdd, storio batri.

Cysylltedd: Defnydd a gynlluniwyd o drafnidiaeth heb bibellau, mewn partneriaeth gydag Acorn Cluster (Yr Alban).

Gwerth buddsoddiad dangosol: £41-68m GVA y flwyddyn (yn ystod gwaith adeiladu); £28m GVA y flwyddyn (yn ystod gweithrediad).

I

Terfynell Ynni Adnewyddadwy Porthladd Penfro

Mae Porthladd Penfro, sy'n cael ei redeg gan Borthladd Aberdaugleddau—porthladd ynni mwyaf y DU a phorthladd mwyaf Cymru—yn safle dreth benodedig o fewn y Porthladd Rhydd Celtaidd. Wedi'i leoli'n strategol lai na 45 km o'r cyfle am Ynni Gwynt Alltraeth yn y Môr Celtaidd, mae'n cynnig cyfleusterau porthladd hynod gysgodol, dwfn sy'n ddelfrydol ar gyfer dosbarthiad, gweithrediad a chynnal a chadw prosiectau ynni adnewyddadwy morol ar raddfa fawr.

Ffocws: ynni adnewyddadwy morol

Gwerth Buddsoddiad Dangosol: oddeutu £500m er mwyn creu safle ynni gwynt alltraeth ar raddfa GW a safle gweithredu a chynnal a chadw

J

Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa – Ynys Môn

Datblygiad Adweithydd Modiwlar Bach (SMR) ar hen safle niwclear, wedi'i gefnogi gan Rolls Royce.

Ffocws: niwclear, parth tyfu AI,

Gwerth buddsoddiad dangosol: £2.5 bn wedi'i fuddsoddi (Llywodraeth

K

Hwb Twf Glân y Barri

Mae Hwb Twf Glân y Barri yn cynnig dros 100 erw o dir datblygedig sydd wedi'i ddylunio ar gyfer busnesau sy'n hybu'r gwaith o bontio i economi carbon isel. Mae'r safle yn cynnig lle hyblyg ar gyfer cynhyrchu hydrogen, trin a dosbarthu, ochr yn ochr â thechnolegau ynni glân.

Ffocws: hydrogen, ynni adnewyddadwy, storio batris, diwydiannau carbon isel, gweithgynhyrchu

Gwerth buddsoddiad dangosol: heb ei gyhoeddi.

L

Porthladd Abertawe

Mae Porthladd Abertawe yn cynnig seilwaith sefydledig ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys gwynt ar y tir, storio a thrafnidiaeth. Bum milltir fôr i ffwrdd, mae Abertawe yn cyd-fynd â galluoedd ynni gwynt alltraeth arnofiol Port Talbot, yn cynnig cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi gael ei chydleoli.

Ffocws: ynni gwynt alltraeth, ynni adnewyddadwy, cadwyn gyflenwi.

Gwerth buddsoddiad dangosol: heb ei gyhoeddi.

M

Porthladdoedd Caerdydd a Chasnewydd

Porthladd Casnewydd yw porthladd mwyaf y DU o ran trin dur, ac mae'n chwarae rhan hollbwysig mewn perthynas â chefnogi'r pontio i ddulliau carbon isel o wneud dur yng Nghymru. Mae graddfa a chysylltedd y porthladd yn cefnogi cadwynau cyflenwi ynni glân a datgarboneiddio diwydiannol hirdymor.

Mae Porthladd Caerdydd yn cynnig cysylltedd aml-ddull sefydledig a chyfleusterau hyblyg ar gyfer trin cargo, storio a dosbarthu, gan gefnogi cyfuniad eang o ddiwydiannau a chyfrannu at dwf carbon isel.

Ffocws: gweithgynhyrchu carbon isel, cadwyn gyflenwi.

Gwerth buddsoddiad dangosol: heb ei gyhoeddi.

Prosiectau Cam Cyn Buddsoddi

Mae'r prosiectau hyn ar gam cyn cael eu datblygu ac yn chwilio am fuddsoddiad cychwynnol.

N

Parc Ynni Glân ac Arloesi Aberddawan – Bro Morgannwg

Trawsnewid yr orsaf a arferai gael ei thanio gan lo yn ecosystem ynni glân gan gynnwys safle lagŵn arddangos cyntaf o'i fath, fel yr argymhellir yn yr adroddiad comisiwn ynni llanw Aber Afon Hafren.[3]

Ffocws: Ynni Adnewyddadwy a'r Economi Gylchol, hwb hydrogen, clwstwr diwydiant eco, parc bioamrywiaeth.

O

Rhaglen ARTHUR - Trawsfynydd, gogledd Cymru

Campws hybrid ymchwil niwclear a gwyddorau bywyd. Ymchwil a Datblygu Gwerth Uchel a chyflogaeth ynni glân.

Ffocws: niwclear gwyddorau bywyd, swyddi a chyflogaeth.

Gwerth buddsoddiad dangosol: ≈ £450m

P

Canolfan Data Positif o ran Byd Natur WBE

Y ganolfan ddata arfaethedig ym Margam sy'n anelu at gefnogi bioamrywiaeth a defnyddio ffynhonnell ynni biomas gynaliadwy, leol o wastraff coedwig.

Ffocws: AI, bioamrywiaeth, biomas, datrysiadau'n seiliedig ar fyd natur

Gwerth buddsoddiad dangosol: Yn chwilio am fuddsoddwyr ar hyn o bryd

Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi

Mae Cymru yn gartref i nifer o Borthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi sy'n gyrru buddsoddiad a thwf.

Q

Parthau Twf AI yn Ne a Gogledd Cymru

Bydd Parthau Twf AI yn ganolog i dyfu arloesedd mewn AI, gan gynnwys canolfannau data, darpariaeth data, darpariaeth ynni drwy Adweithyddion Modiwlar Bach yn Wylfa, busnes a chadwyn gyflenwi. Potensial ar gyfer 8,400 o swyddi newydd yn yr ardal.

Ffocws: Canolfannau data, seilwaith ynni, cadwyn gyflenwi.

Cysylltedd: amrywiol opsiynau'n cael eu harchwilio.

Gwerth buddsoddiad dangosol: £100bn o fuddsoddiad rhagweladwy (gogledd Cymru); £24.25bn o fuddsoddiad preifat wedi ymrwymo (de Cymru)

R

Porthladd Rhydd Ynys Môn – Coridor Caergybi a Menai

Porth gogledd Cymru i Iwerddon a'r Cefnfor Iwerydd, yn canolbwyntio ar wynt alltraeth, ynni morol ac uwch weithgynhyrchu.

Ffocws: Porthladd dyfroedd dwfn, cysylltiadau rheilffordd uniongyrchol, cyflenwad o sgiliau drwy Brifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai.

T

Porthladd Rhydd – Aberdaugleddau a Phort Talbot

Yn cwmpasu dau borthladd dyfroedd dwfn, mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn ganolog i economi gwynt alltraeth arnofiol a hydrogen y DU.

11,500 o swyddi disgwyliedig. Rhyddhad rhag trethi, buddion tollau, a chynllunio wedi'i symleiddio o fewn clwstwr diwydiannol sero net.

Ffocws: Gweithgynhyrchu ynni gwyrdd a chyflenwi, storio ynni a charbon, cynhyrchu hydrogen a thanwyddau cynaliadwy.

Gwerth buddsoddiad dangosol: Rhagolwg o dros £8.5bn.

S

Parth Buddsoddi Caerdydd a Chasnewydd

Coridor arloesi wedi'i bennu ar y cyd ac yn canolbwyntio ar led-ddargludyddion, deunyddiau cyfansawdd, seiber, a thechnoleg ariannol. Ymhlith y cymhellion mae gwell lwfansau cyfalaf a chredydau treth Ymchwil a Datblygu.

Sefydliadau angor: Campws Arloesi Prifysgol Caerdydd a CSA Catapult (Casnewydd).

Cysylltedd: Cysylltiadau uniongyrchol gyda Llundain a'r gogledd-orllewin.

Gwerth buddsoddiad dangosol: Dros £1.2bn o fuddsoddiad preifat wedi'i sicrhau ers 2020.

U

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Perfeddwlad ddiwydiannol sy'n trawsnewid tuag at uwch weithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi sero net. 10,000 o swyddi newydd wedi'u rhagweld.

Ffocws: Awyrofod, trydaneiddio moduron, a gweithgynhyrchu hydrogen.

V

Ardal Profi Ynni'r Môr (META)

Ardal Profi Ynni'r Môr (META) yw canolfan brofi genedlaethol Cymru ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy morol, sy'n cael ei gweithredu gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro CIC. Wedi'i leoli o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau, mae META yn cynnig wyth o safleoedd môr gwirioneddol ā'r holl nodweddion, wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw, ar gyfer gwaith profi. Mae'n galluogi profi cydrannau ynni tonnau, llanw ac ynni alltraeth arnofiol yn gyflym, yn gost effeithiol a gyda risg isel, sy'n helpu i dynnu risg oddi ar arloesi a chyflymu datblygiad technoleg.

Ffocws: Morol/Llanw

Gwerth buddsoddiad dangosol: Ers 2021 mae META wedi cyflawni 14 dosbarthiad, gan ddenu >£10m o wariant Ymchwil a Datblygu i Gymru.

Strategic Vision

Mae ein gweledigaeth yn eglur: creu economi ffyniannus, carbon isel, sy'n gysylltiedig yn fyd-eang ac sy'n cyflawni gwerth ar gyfer buddsoddwyr ac yn gwella bywydau ac amddiffyn y blaned ar yr un pryd.

Mae'r weledigaeth hon yn cael ei harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 — deddfwriaeth yn torri tir newydd sy'n gwneud Cymru y wlad gyntaf yn y byd lle mae'n ofynnol drwy'r gyfraith i ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr holl gyrff cyhoeddus i weithio tuag at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol:

- Cymru **Lewyrchus**
- Cymru **Gydnerth**
- Cymru **Iachach**
- Cymru sy'n **Fwy Cyfartal**
- Cymru o **Gymunedau Cydlynus**
- Cymru â **Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**
- Cymru sy'n **Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.**

Mae'r nodau hyn yn darparu fframwaith strategol hirsefydlog sy'n cysylltu polisi economaidd, seilwaith, addysg, iechyd a gweithredu dros yr hinsawdd. Maent yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob buddsoddiad a phenderfyniad mawr yng Nghymru ystyried yr effaith ar ffyniant, cydraddoldeb a gwytnwch amgylcheddol yn yr hirdymor.

Mae'r sylfaen ddeddfwriaethol nodedig hon yn gwahaniaethu rhwng Cymru a chenhedloedd eraill y DU: wrth i eraill ddilyn cynaliadwyedd ar eu telerau eu hunain, mae Cymru yn ei weld fel rhan o fuddsoddiad yn lles a llwyddiant ein cenedl.

I fuddsoddwyr sy'n chwilio am amgylcheddau twf moesegol tymor hir, sefydlog, mae hyn yn fantais dyngedfennol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r prosiectau hyn oherwydd:

- eu bod yn bodloni'r nodau mae Cymru wedi'u gosod iddi hi ei hun; a
- byddant yn cyflawni manteision masnachol ac enillion ar gyfer diwydiant, busnes ac arweinwyr yng Nghymru

Beth yw Datganoli?

Mae elfennau craidd polisïau diwydiannol ac ynni wrth draed Llywodraeth y DU.
Mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu fframweithiau cynhwysfawr i fuddsoddi a datblygu ar draws diwydiannau a'r IS-8:

- Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU
- Cynllun Swyddi Ynni Glân
- Cyllideb Garbon a Chynllun Cyflawni Twf

Ym 1999, derbyniodd Gymru (ynghyd â'r Alban a Gogledd Iwerddon) bwerau hunanlywodraethu sylweddol ac fe sefydlwyd Senedd Cymru. Rhoddodd hyn gyllideb ei hun i Gymru ar gyfer meysydd polisi 'datganoledig' fel y'u gelwid, a chreodd rôl Prif Weinidog Cymru, sef gwleidydd amlycaf y wlad ac arweinydd y blaid sy'n rheoli. Rhoddwyd rhagor o bwerau datganoliadol i Gymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2017.

Ar hyn o bryd, dyma'r meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Addysg a hyfforddiant
- Llywodraeth Leol (yn cynnwys cynllunio a chydsynio)
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd
- Trafnidiaeth
- Rhai mathau o drethi
- Chwaraeon a'r celfyddydau
- Datblygiad economaidd
- Yr Amgylchedd
- Tai
- Ynni (cyfrifoldebau rhannol)

Mae'r holl bwerau eraill yn rhai 'neilltuedig', h.y. maen nhw'n parhau i fod dan reolaeth Llywodraeth y DU. [5]

[5] https://senedd.wales/how-we-work/our-role/powers

Pam Buddsoddi yng Nghymru?

Mae Cymru yn awdurdodaeth hynod fuddsoddiadwy gyda nifer o nodweddion manteisiol. Gyda digonedd o adnoddau naturiol, gallu diwydiannol sefydledig a chyflenwad clir o brosiectau â blaenoriaeth, mae'n cynnig graddfa ac effaith go iawn i fuddsoddwyr, yn ogystal ag enillion masnachol.

Achub y Blaen

Gydag adnoddau naturiol da, cymorth cryf o ran polisïau, a phartneriaethau gweithredol rhwng y sector cyhoeddus a phreifat, mae Cymru ar y llwybr cywir i ddod yn arweinydd mewn ynni glân, datgarboneiddio diwydiannol ac i sefydlu ei hun fel canolfan ar gyfer datblygu technoleg uwch – gyda GVA posibl o £9bn y flwyddyn o brosiectau 'angor' datgarboneiddio diwydiannol.

Amgylchedd rheoleiddio cefnogol

Mae Ofgem yn ceisio hyrwyddo amgylchedd ynni amrywiol ac yn ddiweddar mae GB Energy Llywodraeth y DU wedi cefnogi buddsoddiadau gwerth biliynau mewn seilwaith ynni newydd – yn cynnwys buddsoddiad o £2.5bn i adweithyddion modiwlar bach yng ngogledd Cymru, wedi'u cefnogi gan Rolls Royce.

System gydweithredol

Mae'r llywodraeth, y byd academaidd, a diwydiant yn gweithio'n agos gyda'i gilydd drwy'r Clystyrau Diwydiannol a chyrff y trydydd sector i sicrhau cymorth di-dor i fuddsoddwyr - o'r cam sefydlu i'r cam ehangu. Mae'r ecosystem yn cynnig amgylchedd deniadol ar gyfer datblygiad ynni glân.

Piblinell wedi'i chefnogi gan y llywodraeth

Mae'r prosiectau hyn wedi'u creu, a'r risgiau wedi'u tynnu oddi wrthynt ar gyfer cyfalaf sefydliadol, gyda diwylliant busnes cydweithredol a chadarnhaol o ran agwedd – ac mae yna enghraifft o hynny drwy fuddsoddiad diweddar gwerth £600m gan Copenhagen Infrastructure Partners ym mhortffolio ynni adnewyddadwy Bute Energy.



Gweithlu hynod fedrus sydd â mentrau hyfforddiant ar gyfer cyflogeion

Yn gartref i brifysgolion a sefydliadau ymchwil blaenllaw, mae Cymru yn cynnig cyflenwad sefydlog o ddoniau sy'n cael hyfforddiant ym maes peirianneg, digidol, a gwyddorau amgylcheddol ac a all droi at gyfleoedd newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn draddodiadol yn fwy ymyraethol o ran addysg a chymorth hyfforddiant, yn cynnig ei Rhaglen Sgiliau Hyblyg gyda chyllid i ariannu hyd at 50% o gostau hyfforddiant achrededig. Mae Cymru yn prysur ddod yn brif gyrchfan ar gyfer busnesau rhyngwladol – gyda 25,000 o swyddi gwyrdd wedi'u rhagweld ar gyfer Cymru erbyn 2030.

Ansawdd bywyd da

Mae Cymru yn cyfuno cyfle economaidd gyda harddwch naturiol eithriadol, diwylliant cyfoethog, a chymuned — gan ei gwneud yn lle delfrydol i fyw, gweithio ac arloesi. Yn ogystal, mae swyddi diwydiant yng Nghymru yn denu cyflogau cyfartalog cystadleuol sy'n gymharol i gostau byw a thai – a dim ond ychydig dros ddwy awr i ffwrdd o Lundain ar y trên.

Cynllunio clir a fframweithiau cymhellol

Mae'r rhain wedi'u cefnogi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys drwy bedwar Parth Strategaeth Diwydiant mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a CCS, yn ogystal â Phorthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi i ddenu buddsoddiad ar brosiectau sydd o ddiddordeb strategol i'r DU a Chymru – gyda £biliynau o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i addo hyd yn hyn.

Prif leoliad ar gyfer twf canolfannau AI a data

Mae twf canolfannau AI a data yn cyflymu'n sydyn a bydd yn brynwr mawr o ynni glân yn y DU. Mae'r cyfuniad o adnoddau adnewyddadwy, seilwaith hydrogen newydd a phŵer posibl o adweithyddion modiwlar bach yn rhoi'r wlad mewn lle da i gynnal seilwaith digidol cynaliadwy y genhedlaeth nesaf.

Cyd-fynd â nodau sero net a nodau llesiant Cymru

Mae Cymru wedi ymrwymo i gyflawni enillion sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ochr yn ochr â thwf a datblygiad seilwaith o fewn amserlen sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth genedlaethol a datganoledig – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae Rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru: menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU — yn hybu adfywiad a buddsoddiad ar raddfa fawr, a disgwylir iddi ddenu buddsoddiad gwerth £8.4 biliwn a chreu dros 11,500 o swyddi ar draws y sector ynni adnewyddadwy, hydrogen a gweithgynhyrchu uwch

Gwelliannau a diwygiadau i'r grid: Yn ddiweddar, mae'r rheolydd cenedlaethol Ofgem wedi ymrwymo buddsoddiad gwerth £28 biliwn i ddatblygu a sicrhau'r grid, gan ddiweddaru a chynyddu capasiti i fodloni galw cynyddol. Maen nhw hefyd wedi cadarnhau newid yn y ffordd mae cysylltiadau yn cael eu cymeradwyo, gan symud o fodel y cyntaf i'r felin i system flaenoriaethu sy'n cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth ac amcanion diwydiant.

Cynllun Twf AI i Gymru: Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i wneud y mwyaf o AI fel hwb ar gyfer twf economaidd, gan nodi canolfannau data a chanolfan ynni cynaliadwy i bweru seilwaith AI: AI Cymru: Shaping a Smarter, Fairer, More Prosperous Wales [HTML] | GOV.WALES

Dolenni Pellach:

- AI Growth Zones to create thousands of jobs and unlock up to £100 billion in investment, as new site confirmed for North Wales - GOV.UK
- AI to power national renewal as government announces billions of additional investment and new plans to boost UK businesses, jobs and innovation - GOV.UK

Am ragor o wybodaeth, ewch i gael cip ar yr ystod lawn o brosiectau yn y Wales Capital Investment Prospectus

Cefnogaeth ar gyfer Buddsoddwyr

Mae Cymru yn elwa ar rwydwaith pwerus ac integredig o sefydliadau cyllid cyhoeddus a rhaglenni buddsoddi, wedi'u dylunio i ddenu a chynyddu cyfalaf domestig a rhyngwladol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n sicrhau y gall buddsoddwyr geisio'r adnoddau, y cyllid a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflawni twf cynaliadwy yn unol â'r gwaith yn y DU i bontio i sero net.

Cymorth Ariannol (Ar Lefel Genedlaethol ac ar Lefel y DU)

Great British Energy (GBE)
Cwmni ynni cyhoeddus y DU, yn buddsoddi ar draws y gadwyn werth ynni — o gynhyrchu i ddatblygu cadwyn gyflenwi. Gyda thros £8.3 biliwn wedi'i ymrwymo gan y Senedd hon, mae GBE yn cefnogi prosiectau ynni alltraeth, hydrogen, solar ac ynni cymunedol. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys clystyrau ynni adnewyddadwy mewn rhanbarthau arfordirol a diwydiannol.
Cysylltwch â: partnerships@gbe.gov.uk

Y Swyddfa Fuddsoddi
Uned ar y cyd rhwng Trysorlys EF, yr Adran Fusnes a Masnach a Rhif 10. Mae'r Swyddfa Fuddsoddi yn ceisio ac yn sicrhau buddsoddiad trawsnewidiol i hybu twf, creu swyddi, a lefel uwch o gynhyrchedd ledled y DU. 200 aelod o staff a thimau ar lawr gwlad mewn 25 marchnad â blaenoriaeth.
Cysylltwch â: Office for Investment - GOV.UK

Y Gronfa Gyfoeth Wladol
Sefydliad buddsoddiad sofran yn y DU sydd â chyfalafu gwerth £27.8 biliwn, ac sy'n darparu ecwiti, dyled, a gwarantau ar gyfer prosiectau sy'n ddwys o ran cyfalaf ac sy'n cwrdd â'i egwyddorion buddsoddi. Mae sectorau blaenoriaeth yn cynnwys ynni glân, gweithgynhyrchu uwch, trafnidiaeth, a digidol a thechnoleg. Gallai cyfleoedd yng Nghymru efallai y bydd gynnwys hydrogen, cipio carbon, a gwella logisteg porthladdoedd.
Cysylltwch â: nationalwealthfund.org.uk/contact-us

Banc Busnes Prydain

Yn cefnogi busnesau sy'n tyfu ac arloeswyr gyda rhaglen Gyfalaf Twf Strategaeth Ddiwydiannol gwerth £4 biliwn, ac yn trosoli gwerth £12 biliwn mewn cyllid preifat. Yn cynnwys Cronfa Fuddsoddi Cymru, sef ymrwymiad gwerth £130 miliwn o gyllid newydd ar gyfer y genedl. Yn canolbwyntio ar gyfalaf menter a thwf ar gyfer busnesau bach a chanolig mewn technolegau sero net.

Cysylltwch â: breakthrough@british-business-bank.co.uk

Banc Datblygu Cymru (Banc)

Sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau arni, cryfhau a thyfu. Mae'r Banc yn cynnig benthyciadau busnes hyblyg, yn amrywio o £1,000 i £10m a hynny ar delerau o hyd at 15 mlynedd.

Cysylltwch â: https://developmentbank.wales/contact-us

Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI)

Yn cynnig cyllid grant i fusnesau newydd yn y sector technoleg lân ac arloesedd, drwy ei is-gwmni Innovate UK. Yn darparu cyllid grant o hyd at £25 miliwn ar gyfer busnesau rhanbarthol drwy'r rhaglen Launchpad.

Cysylltwch â: support@iuk.ukri.org

Ystâd y Goron

Busnes annibynnol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn gweithredu ac yn buddsoddi er budd y cyhoedd. Yn ystod y degawd diwethaf, mae Ystâd y Goron wedi cynhyrchu £5 biliwn ar gyfer arian y wlad; mae ei bortffolio gwerth £15 biliwn yn cynnwys tir gwledig, gwely'r môr a chanolfannau trefol.

Cysylltwch â: https://www.thecrownestate.co.uk/contact-us/managing-agents

Modelau Ariannu Cyhoeddus-Preifat

Mae modelau partneriaeth Llywodraeth y DU yn gwneud defnydd cynyddol o gyllid cyfunol — sef cyfuno cyfalaf cyhoeddus a phreifat er mwyn tynnu'r risg o dechnolegau newydd a denu buddsoddiad ar raddfa fawr. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **Contract ar gyfer Gwahaniaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy –** contract cyfreithiol preifat lle caiff cyllid ei fynegeio i chwyddiant, gan sicrhau rhagweladwyedd ar adenillion o fuddsoddi. Cyhoeddwyd canlyniadau AR7 ar 14 Ionawr 2026, gan sicrhau 8.4 GW o gapasiti gwynt alltraeth newydd. Mae'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth hyn dros amser wedi sicrhau gostyngiadau sylweddol a chyflym yng nghostau prosiectau gwynt alltraeth ac maent wedi helpu i sicrhau capasiti.

- **Cyllid targedig ar gyfer Cadwyn Gyflenwi Ynni Glân –** gyda £300 miliwn eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer ynni gwynt alltraeth, a Bonws Diwydiant Glân o £544 miliwn a allai drosoli hyd at £9 biliwn o fuddsoddiad preifat mewn cadwynau cyflenwi cynaliadwy. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad o £5.8 biliwn gan Gronfa Gyfoeth Wladol y DU ar gyfer CCUS, hydrogen, porthladdoedd, gigaffatrïoedd a dur gwyrdd.

- **Model Sylfaen Asedau Rheoledig (RAB) –** yn cael ei ddatblygu ar gyfer lagŵn arddangos masnachol heb ei debyg yn yr Hafren, gan gymryd i ystyriaeth oes bywyd anarferol o hir cynlluniau llanw (>12 mlynedd) sy'n fwy tebyg i brosiectau seilwaith mawr yn hytrach na chynlluniau adnewyddadwy.

Mae hyn yn helpu i sicrhau gwariant cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a phrosiectau ynni glân, gan wneud Cymru yn awdurdodaeth ffafriol i fuddsoddi ynddi yn y DU gyda chefnogaeth ei fframwaith buddsoddi cenedlaethol.

Cynllunio a Chydsynio

Mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA) yn Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu cynllunio gwlad a thref ac fe gyfeirir ati yn aml wrth ystyried ceisiadau cynllunio a chydsynio.
Rhagor o wybodaeth: Town and Country Planning Act 1990

Cyrff Cydsynio

- **Arolygiaeth Cynllunio (PI)**
  Yn ymdrin ag apeliadau cynllunio, ceisiadau cynllunio seilwaith cenedlaethol, archwilio cynlluniau lleol a gwaith achos arall sy'n ymwneud â chynllunio a gwaith achos arbenigol yn Lloegr.
  Rhagor o wybodaeth: Planning Inspectorate - GOV.UK
- **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)**
  Yn rheoli gwaith achos yn ymwneud â datblygu a defnyddio tir o fudd y cyhoedd. Maen nhw'n ymdrin â'r canlynol: apeliadau cynllunio a gorfodi; ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS); Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol (SDP a LDP); prosiectau seilwaith mawr; apeliadau amgylcheddol; archebion prynu gorfodol; systemau draenio cynaliadwy; tir comin; hawliau tramwy; gwasanaethau stopio a chywiro; a chyngor a hyfforddiant.
  Rhagor o wybodaeth: What we do: Planning and Environment Decisions Wales | GOV.WALES
- **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
  Wedi'i sefydlu i "ddilyn nod o reoli cynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol" a "chymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy adnoddau naturiol" fel y nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Maen nhw'n gweithredu fel prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar y materion hyn, ac yn rhoi cyngor i ddiwydiant, y cyhoedd yn ehangach, a'r sector gwirfoddol ynglŷn â materion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.
  Rhagor o wybodaeth: Natural Resources Wales
- **Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA)**
  Paratoi cynlluniau datblygu, ystyried ceisiadau cynllunio, a rhoi cyngor ar gynllunio ar lefel leol. Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod cynllunio lleol fel arfer, h.y. y cyngor.

Dogfennau Perthnasol

- Polisi Cynllunio Cymru: Planning Policy Wales - Edition 12
- Strategaeth Fasnachol CNC 2021-26: Natural Resources Wales / Commercial strategy 2021-2026

Seilwaith

- **Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol (NGET)**
  Yn berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr, ac yn ei gynnal a'i gadw. Yn cymryd trydan sydd wedi'i gynhyrchu yn uniongyrchol o ffynonellau ynni, h.y. ffermydd gwynt, tyrbinau gwynt ac ati cyn ei drosglwyddo i'r rhwydwaith dosbarthu.
  Rhagor o wybodaeth: National Grid Electricity Transmission | National Grid
- **Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol (NGED)**
  Adran dosbarthu trydan rhanbarthol y Grid Cenedlaethol. Yn cael ei adnabod gynt fel Western Power Distribution, dyma rwydwaith dosbarthu trydan mwyaf y DU ac mae'n gwasanaethu bron i 8 miliwn o gwsmeriaid yn cynnwys De Cymru gyfan.
  Rhagor o wybodaeth: National Grid Electricity Distribution | National Grid
- **SP Energy Networks (SPEN)**
  Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu a Thrawsyrru, yn gyfrifol am y rhwydwaith grid ledled Gogledd Cymru, yn ogystal â Glannau Merswy, Swydd Gaer, a Gogledd Swydd Amwythig.
  Rhagor o wybodaeth: About Us - SP Energy Networks
- **Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol (NESO)**
  Wedi'i greu yn 2024 er mwyn rhoi cyngor annibynnol ar sut i gynllunio a chynnal y system ynni. Mae NESO yn defnyddio dull system gyfan, ei nod yw creu strategaeth genedlaethol ar gyfer system ynni'r DU, yn enwedig y rhwydwaith grid.
  Rhagor o wybodaeth: National Energy System Operator (NESO) | National Energy System Operator
- **Awdurdod Cenedlaethol Seilwaith a Thrawsnewid Gwasanaethau (NISTA)**
  Yn anelu at gryfhau'r fframwaith sefydliadol ar gyfer strategaeth seilwaith a chyflawni ac yn gweithredu ochr yn ochr â gwaith datblygu strategaeth seilwaith 10 mlynedd i osod gweledigaeth hirdymor, a chyflwyno'r Bil Cynllunio a Seilwaith i oresgyn rhwystrau cynllunio.
  Rhagor o wybodaeth: About us - National Infrastructure and Service Transformation Authority

Dogfennau Perthnasol

- Cynllun Busnes NGET RIIO-T3: Homepage | RIIO-T3
- Blaenoriaethau Strategol NESO: Introducing NESO - Our Strategic Priorities
- UK Infrastructure: a 10 Year Strategy : UK Infrastructure: A 10 Year Strategy - GOV.UK

Heriau Posibl i Fuddsoddwyr

Yn yr un modd ag unrhyw awdurdodaeth, mae yna heriau posibl y byddai angen mynd i'r afael â nhw. Sef:

- Newidiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol/deddfwriaethol
- Seilwaith a chapasiti grid
- Gwytnwch y gadwyn gyflenwi a chystadleuaeth am adnoddau
- Costau ynni uwch na marchnadoedd eraill
- Cynllunio a chydsynio
- Bwlch sgiliau a gweithlu
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a derbyniad cymdeithasol

Sefydliadau ar gyfer Mynd i'r Afael â Heriau Buddsoddi a'u Lliniaru yng Nghymru

Mae yna nifer o gyrff y trydydd sector yng Nghymru sydd wedi'u creu a'u datblygu i helpu i gefnogi a hybu'r tirlun busnes a buddsoddi yng Nghymru. Sef:

- **Sero Net Diwydiant Cymru (NZIW)**
  Sefydliad annibynnol wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth i ddiwydiannau yng Nghymru wrth iddynt bontio i gyflawni sero net. Yn gweithio i wella'r ymgysylltiad rhwng diwydiant, busnesau bach a chanolig, a'r sector cyhoeddus a chefnogi'r gwaith o dynnu risg o gynllunio a chydsynio, ochr yn ochr â hyrwyddo dros Gymru fel hwb blaengar pontio i ynni glân ac fel rhan annatod o ganolfan diwydiannol y DU.
  Gwefan: nziw.wales
- **SWITCH**
  Mae Switch Cymru Sero Net yn rhwydwaith cydweithredol yn cyflymu'r gwaith o bontio Cymru i Ddyfodol Sero Net. Mae Switch yn cysylltu diwydiant gyda thros ddegawd o arbenigedd Sero Net ar draws prifysgolion Cymru, gan gyflawni datrysiadau ymarferol i ymchwil ac arloesi, sgiliau ar gyfer gweithlu Sero Net, a gweithgarwch cydweithredol wedi'i ariannu.
  Gwefan: SWITCH – Net Zero Wales
- **Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)**
  Rhwydwaith ar draws y DU gyfan sydd â changen bwrpasol ar gyfer Cymru, yn eirioli dros fusnesau. Ymhlith ei brif feysydd polisi mae strategaeth ddiwydiannol fodern, lleihau costau busnes, a magu cysylltiadau cryfion â phartneriaid masnachu tramor.
  Gwefan: Find out about the CBI | CBI
- **Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)**
  Yn gweithio gyda'i aelodau, Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr etholedig, cynghorau a nifer o sefydliadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y wlad i gefnogi busnesau bach a'r hunangyflogedig.
  Website: FSB Wales | Local Contacts, Events & Business News
- **Welsh Chambers of Commerce**
  Hyrwyddo, cysylltu, cefnogi a hysbysu busnesau ar draws Cymru drwy ddigwyddiadau, rhwydweithio, eiriolaeth, a hyfforddiant:
  - Siambrau Cymru, y De-ddwyrain, y De-orllewin, y Canolbarth:
  Business Support for SMEs- Chamber of Commerce- Driving trade
  - Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Swydd Gaer:
  West Cheshire & North Wales Chamber of Commerce
- **MakeUK**
  Grŵp eiriolaeth cenedlaethol ar gyfer gweithgynhyrchwyr; yn hyrwyddo twf ac arloesedd. Sefydliad nad yw er elw sy'n mynd ar drywydd gwaith ymgyrchu, arbenigedd sector, gwasanaethau busnes, hyfforddiant prentisiaeth a rhwydweithiau i gefnogi cwmnïau ledled y DU.
  Gwefan: About us | Make UK
- **CS Connected**
  Y brand cyfunol ar gyfer nifer cynyddol o weithgareddau sy'n ymwneud ag uwch lled-ddargludyddion yng Nghymru, yn gartref i gymuned unigryw o sefydliadau academaidd, prototeipio cyfleusterau a galluoedd gweithgynhyrchu ar raddfa fawr yn fyd-eang sy'n cydweithio ar draws ystod o raglenni ymchwil ac arloesi. Wedi'i gefnogi gan gyllid Llywodraeth y DU drwy UKRI.
  Gwefan: CS Connected
- **Cyd-bwyllgorau Corfforaetho (CJCs)**
  Cyrff corfforaethol rhanbarthol yng Nghymru sydd wedi'u sefydlu i wella cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac sy'n gwella llywodraethiant rhanbarthol. Cyflwynwyd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yng Nghymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maen nhw'n gwasanaethu fel dull i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd ar broblemau rhanbarthol, gan hyrwyddo cynllunio strategol a llesiant economaidd yn eu hardaloedd.
  - Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: Cardiff Capital Region - Re-energising our Region, Reshaping our Future
  - Bargen Ddinesig Bae Abertawe: Home | Swansea Bay City Deal
  - Tyfu Canolbarth Cymru: Growing Mid Wales - English - Growing Mid Wales
  - Uchelgais Gogledd Cymru: Ambition North Wales | Home
- **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs):**
  Mentrau cydweithredol wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag anghenion sgiliau lleol a rhanbarthol, hyrwyddo buddsoddiad mewn datblygu sgiliau a chefnogi twf economaidd. Sefydlwyd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymateb i ofynion sgiliau penodol rhanbarthau gwahanol yng Nghymru. Maen nhw'n chwarae rhan hollbwysig o ran darparu dealltwriaeth o'r farchnad lafur i Lywodraeth Cymru, sy'n helpu i fod yn sail i ddatblygu polisïau a dyrannu cyllid sgiliau.
  Gwefan: Regional Skills Partnerships | Business Wales
- **Cyrff Masnachu (e.e. RenewableUK Cymru, CCSA)**
  Yng Nghymru, mae yna nifer sylweddol o gymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol ar draws amrywiol sectorau, yn cynnwys y diwydiant ynni adnewyddadwy, dal a storio carbon, hydrogen, ac eraill sy'n hyrwyddo dros fusnesau a chyflogwyr yn eu sectorau.

Croeso i Gymru.

Dewch i ni lywio dyfodol Ynni Glân gyda'n gilydd.



acre

Mae Acre yn sefydliad byd-eang sy'n chwilio am swyddogion gweithredol ac sydd wedi ymrwymo i ddod o hyd i'r arweinwyr a fydd yn cyflymu'r gwaith o bontio i sero net. Ers dros ddau ddegawd, rydym wedi helpu sefydliadau bontio'r bwlch rhwng uchelgais o gynaliadwyedd i gyflawni cynaliadwyedd — gan adnabod pobl ddawnus mewn swyddi uchel sydd â'r weledigaeth, y gallu a'r dylanwad i ddatgarboneiddio systemau cymhleth a hyrwyddo gweithredu ystyrlon dros yr hinsawdd.

Drwy gefnogi busnesau ar draws diwydiant, cyllid, ynni a'r amgylchedd adeiledig, rydym yn cryfhau'r capasiti arwain sydd ei angen i ddatblygu timau cydnerth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Rydym yn galluogi sefydliadau i ehangu datrysiadau carbon isel, gwella atebolrwydd, a sicrhau bod cynnydd wedi'i gefnogi gan yr arbenigedd cywir.

acre.com

Sero Net Diwydiant Cymru | Net Zero Industry Wales

Mae Sero Net Diwydiant Cymru yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i ddiwydiannau yng Nghymru wrth iddynt bontio i gyflawni sero net. Rydym yn pontio'r bwlch rhwng diwydiant a rheoleiddwyr — gan gyflymu'r gwaith o gyflawni prosiectau carbon isel drwy gyd-greu gyda phartneriaid cynllunio a chydsynio allweddol.

Drwy gefnogi aelodaeth gynyddol o ddiwydiant, y byd academaidd, a sefydliadau'r sector cyhoeddus, ein nod yw hybu'r technolegau carbon isel sy'n cael eu mabwysiadu a chynorthwyo gyda chreu cynhyrchion gwerth uchel a swyddi â chyflogau da yng Nghymru — gan wneud ein gwlad yn hwb blaengar pontio i ynni glân a'i helpu i barhau i fod yn rhan annatod o ganolfan diwydiannol y DU.

nziw.wales